

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllaw cam wrth gam ar gyfer Prynwyr RBS

A chithau'n brynwr a gwerthwr pysgod cofrestredig, rhaid ichi lenwi nodyn gwerthu bob tro y byddwch yn prynu a gwerthu, a'i gyflwyno o fewn y terfynau amser cyfreithiol. Diben hyn yw sicrhau bod eich pysgod yn cael eu masnachu yn unol â safonau rhyngwladol, ac mae'n golygu bod modd cyhoeddi tystysgrifau dal at ddibenion allforio. Mae hefyd yn darparu data pwysig i gefnogi penderfyniadau a fydd yn sicrhau stociau pysgota cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru yma i helpu. Dilynwch y canllaw syml hwn i sicrhau eich bod yn cyflwyno'ch nodiadau gwerthu yn brydlon. Os oes angen rhagor o gymorth arnoch, ffoniwch ni ar **03000 253500** neu anfonwch e-bost at **milfordhavenfisheriesoffice@llyw.cymru**

## 1

Mae'r cwch pysgota yn glanio'r ddalfa ac yn cyflwyno llyfr log a datganiad glanio neu gofnod dal i Lywodraeth Cymru.

## 2

Mae'r prynwr yn dod yn berchennog ar bysgod gwerthiant cyntaf.

## 3

Mae'r prynwr yn pwyso'r pysgod yn ôl rhywogaeth.

## 4

Mae'r prynwr yn paratoi nodyn gwerthu, gan gynnwys:

### Manylion y cwch:

- PLN y cwch
- Enw'r cwch
- Enw meistr neu berchennog y cwch

### Manylion gwerthu:

- Enw a rhif cofrestru'r prynwr
- Y man a'r dyddiad gwerthu

### Manylion y pysgod:

- Cod rhywogaeth y Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth (FAO)
- Yr ardal lle cafodd y pysgod eu dal
- Faint (kg) o bob rhywogaeth a ddaliwyd
- Sut mae'r pysgod yn cael eu cyflwyno (e.e. ffiled, yn gyfan etc., wedi rhewi, wedi halltu etc.)
- Yr wybodaeth Safonau Marchnata (graddio)
- Pris pob rhywogaeth
- I ble mae'r pysgod a dynnwyd yn ôl yn mynd
- Manylion pysgod sy'n llai na'r meintiau cyfeirio cadwraethol lleiaf

5

**Cyflwyno'r nodyn gwerthu:**
Mae'r prynwr yn cyflwyno nodyn gwerthu electronig ymhen 24 awr ar ôl i'r pysgod gael eu gwerthu. Caiff prynwr sydd â throsiant blynyddol o lai na €200,000 mewn pysgod gwerthiant cyntaf gyflwyno nodyn gwerthu electronig neu bapur ymhen 48 awr.

6

Mae'r nodyn gwerthu'n dod i law Llywodraeth Cymru.

7

Mae'r nodyn gwerthu yn cael ei gysylltu â datganiad glanio neu gofnod dal y cwch pysgota.

8

**Diolch! Rydych chi wedi helpu i ...**
Atal rhwystrau wrth allforio, gwella'r ffordd y caiff pysgodfeydd eu rheoli, darparu sylfaen gryfach o dystiolaeth i helpu i sefydlogi a thyfu'r diwydiant, ac i ddarparu'r dystiolaeth ar gyfer cael arian grant.

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG41621